



Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

Amlogfa Llwydcoed

Cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful, brynhawn Mawrth, 19 Mawrth 2019 am 2pm.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol (Aelodau Pwyllgor Amlogfa Llwydcoed) yn bresennol:-

Y Cynghorydd H. Boggis (Cadeirydd)

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Y Cynghorydd J. Thomas

Y Cynghorydd D. Isaac

Y Cynghorydd D. Chaplin

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Y Cynghorydd A. Fox

Y Cynghorydd G. Jones

Y Cynghorydd A. Crimmings

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms J. Lewis – Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau

Mr C. Pritchard – Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent

Mr S. Preddy – Cyfrifydd Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned

Mrs L. Coughlan – Cyfreithiwr

24 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Colbran (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful).

25 DATGANIAD BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

26 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2018 yn rhai cywir.

27 MATERION YN CODI

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd y Cydbwyllgor yn Amlogfa Llwydcoed yn y dyfodol, nodwyd bod hyn yn dal i fod yn opsiwn a bydd yn cael ei adolygu yn y dyfodol.

28 CALENDR ARFAETHEDIG O GYFARFODYDD AR GYFER 2019–20

Cafodd aelodau gais i drafod yr amserlen arfaethedig o gyfarfodydd chwarterol y Cydbwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019-2020.

Cafodd yr Aelodau wybod bod dyddiadau dau o'r cyfarfodydd wedi cael eu newid er mwyn cydymffurfio â gofynion Swyddfa Archwilio Cymru.

Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r calendr o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019-2020.

29 ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

Yn ei hadroddiad, rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau ystadegau a ffigurau Cyflawniad i'r Aelodau sy'n ymwneud â gweithredu'r Amlogfa ers y cyfarfod diwethaf ac yn dilyn ystyried yr eitemau hynny, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth.

30 FFŪOEDD A THALIADAU'R AMLOSGFA A FFŪOEDD A THALIADAU ATODOL 2019–20

Yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau yr adroddiad sy'n nodi manylion y ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer 2019/20.

Cynigiwyd cynyddu ffioedd a thaliadau ar gyfer amlogi a'r holl ffioedd a thaliadau atodol o 2.90%. Darparwyd cymhariaeth o'r ffioedd presennol a'r ffioedd arfaethedig.

Nododd yr Aelodau nad oedd hi'n bosibl gwybod a fyddai ffioedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn cynyddu ar gyfer 2019-20. Serch hynny, ystyriwyd bod y cynnydd a oedd yn cael ei gynnig yn rhesymol, a phe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'n cynnal sefyllfa debyg i awdurdodau lleol eraill.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** –

(1) Bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo'r ffioedd diwygiedig ar gyfer

amlogi a'r holl ffioedd a thaliadau atodol.

**31 ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB AR GYFER 2018–19 AC
AMCANGYFRIFON REFENIW DRAFFT AR GYFER 2019–20**

Cyflwynodd y Cyfrifydd Grŵp, Gwasanaethau'r Gymuned yr adroddiad, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am sefyllfa Monitro Cyllideb 2018/19 ac Amcangyfrifon Refeniw Drafft ar gyfer 2019/20.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** –

(1) Nodi sefyllfa monitro cyllideb 2018-19.

(2) Cymeradwyo'r Amcangyfrifon Refeniw drafft ar gyfer 2019-20

32 UNRHYW FATERION ERAILL

Gofynnodd Aelod a oedd modd symud yr hysbysfwrdd cyhoeddus ym mlaen Amlogfa Llwydcoed fel bod modd i'r cyhoedd ei weld yn haws. Mewn ymateb, nodwyd y byddai hyn yn cael ei adolygu yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd mewn perthynas â defnyddio gweithwyr asiantaeth yn Amlogfa Llwydcoed, nodwyd nad oedd galw tymhorol bellach am weithwyr asiantaeth yn yr Amlogfa, ac felly, cytunwyd troi swyddi tri garddwr sydd wedi'u llenwi gan weithwyr asiantaeth ar hyn o bryd yn swyddi parhaol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r problemau draenio a gafwyd ar y safle o'r blaen yn ystod tywydd garw, nodwyd y byddai gwaith pellach yn mynd rhagddo yn ystod yr haf, sy'n rhan o waith wedi'i gynllunio.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.16pm

**H. Boggis
Cadeirydd**